



POB PLENTYN

Rhaglen Mesur Plant
2017/18

Tîm cynhyrchu

Linda Bailey

Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus/Cudd-wybodaeth Iechyd

Ciarán Humphreys

Cyfarwyddwr Cudd-wybodaeth Iechyd

Leon May

Uwch Ddadansoddwr Cudd-wybodaeth Iechyd Cyhoeddus

Lloyd Evans

Uwch Ddadansoddwr Manylach Cuddwybodaeth am Iechyd
Cyhoeddus

Andrew Dring

Uwch Ddadansoddwr Cudd-wybodaeth Iechyd Cyhoeddus

Holly Walsh

Uwch Ddadansoddwr Manylach Cudd-wybodaeth Iechyd Cyhoeddus

Nathan Lester

Pennaeth Tîm Dadansoddi'r Arsyllfa

Lance Webster

Ridler Webster Ltd

Rhian Huws

Cwmni Cyfieithu Canna

Echdynnu Data

Gareth John

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Manylion cyhoeddi

Teitl:

Rhaglen Mesur Plant Cymru
2017/18

Cyhoeddwr:

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd
Cyhoeddus Cymru

Dyddiad:

7 Mawrth 2019

ISBN 978-1-78986-056-6

Gwefan:

[http://www.wales.nhs.uk/
sitesplus/888/hafan](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/hafan)

I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwrch:

childmeasurementprogramme
@wales.nhs.uk

Diolchiadau

Diolch yn fawr i'r teuluoedd a'r plant a gymerodd ran yn y rhaglen ac i'r holl staff mewn Byrddau Iechyd sydd wedi cefnogi'r rhaglen ledled Cymru.

© 2018 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r diwyg yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Tudalen

Siartiau, tablau a mapiau	4
Cyflwyniad	5
Crynodeb	6
Canlyniadau	7
Pwysau iach	7
O dan bwysau	7
Gordewdra	7
Amddifadedd	11
Ethnigrwydd	13
Cymhariaeth	14
Cyfranogiad	16
Rhagor o wybodaeth	17
Talfyriadau	17



Siartiau, tablau a mapiau

Tudalen

Ffigur 1 – crynodeb o'r canlyniadau ar lefel genedlaethol	6
Ffigur 2 – gordewdra ar lefel byrddau iechyd, pum mlynedd	8
Ffigur 3 – gordewdra ar lefel awdurdodau lleol	9
Ffigur 4 – gordewdra ar lefel byrddau iechyd, un flwyddyn	10
Ffigur 5 – gordewdra ac amddifadedd	11
Ffigur 6 – ethnigrwydd a gordewdra	13
Ffigur 7 – cymhariaeth o ordewdra yn y DU	14
Ffigur 8 – cymhariaeth o blant gordew a thros bwysau yn y DU	15
Tabl 1 – cyfranogiad	16



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad 2019 hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau Rhaglen Mesur Plant Cymru (RhMP) ar gyfer y flwyddyn ysgol 2017/18. Mae'r canlyniadau llawn, gan gynnwys tablau data, siartiau a mapiau, ar gael ar wefan Rhaglen Mesur Plant Cymru yn: www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/hafan

Mae gwybodaeth am hanes y rhaglen a sut y caiff gwybodaeth ei chasglu a'i dadansoddi hefyd ar gael ar y wefan. Mae'r ddogfen **"Rhaglen Mesur Plant Cymru: hanes, fframwaith deddfwriaethol ac agweddau technegol"** sydd ar gael i'w lawrlwytho yn rhoi gwybodaeth ynghylch mesur mynegai màs y corff, categorïau cyfraddau a ddefnyddir yng Nghymru a sut y caiff arwyddocâd ystadegol ei fesur.

Dyma 7fed flwyddyn y rhaglen, fodd bynnag ni chaiff canlyniadau'r flwyddyn gyntaf eu cynnwys mwyach yn y dadansoddiad a'r drafodaeth, gan nad oedd holl safonau a chanllawiau'r Rhaglen Mesur Plant (ar waith pan gymerwyd mesuriadau yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Mae'r adroddiad a'r data yn ymwneud â'r mesuriadau a gymerwyd o blant sy'n mynychu dosbarth derbyn yng Nghymru, sydd hefyd â chod post preswyl yng Nghymru. Mae'n rhaid bod y plant y bydd eu mesuriadau'n cael eu cynnwys yn cael eu pen-blwydd yn bump oed rhywbryd yn ystod y flwyddyn ysgol. Rhoddir cyfle

i rieni/gofalwyr y plant eithrio eu plant o'r rhaglen fesur. Mae'r wybodaeth ynghylch y niferoedd sy'n dewis optio allan yn cael ei chynnwys yn y datganiad ansawdd data sy'n ymddangos ar y wefan ochr yn ochr â'r adroddiad.

Mae newidiadau i ffiniau dau fwrdd iechyd yng Nghymru sy'n effeithio ar sut y caiff canlyniadau'r rhaglen eu dadansoddi a'u cyflwyno eleni. Er nad yw'r newidiadau'n cael eu rhoi ar waith tan fis Ebrill 2019 (ar ôl i'r adroddiad a'r data hyn gael eu cyhoeddi), mae'r canlyniadau yn yr adroddiad hwn wedi'u dadansoddi a'u cyflwyno ar sail ffiniau'r byrddau iechyd newydd. Mae hyn er mwyn diogelu adroddiadau'r rhaglen yn y dyfodol. Mae ffiniau'r awdurdodau lleol yn aros yr un fath, ond mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi symud o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i ymuno ag awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol newydd Cwm Taf. Yn y cyfamser, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi cael ei ailenwi yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Am y tro cyntaf ers sefydlu'r RhMP, rydym hefyd wedi dadansoddi a chyflwyno adroddiad ychwanegol eleni sy'n edrych ar ordewdra difrifol ymysg plant yn y grŵp oedran hwn.

Crynodeb


Ceir crynodeb o ganlyniadau'r Rhaglen Mesur Plant dros y chwe blynedd diwethaf yn Ffigur 1. Fe wnaethom adrodd y llynedd bod y cyfraddau gordewdra yn 2016/17 yn ystadegol arwyddocaol uwch nag yn y ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, eleni, nid oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol

rhwng cyfraddau gordewdra yn 2017/18 a'r cyfraddau mewn blynnyddoedd ysgol blaenorol. Yn ogystal, nid oes unrhyw wahaniaeth sy'n ystadegol arwyddocaol ar draws y blynnyddoedd yn nifer y rhai sydd â phwysau iach neu sydd dros bwysau.

Ffigur 1 – crynodeb o'r canlyniadau ar lefel genedlaethol

Canran y plant 4 i 5 oed sydd o dan bwysau, sydd â phwysau iach, sydd dros bwysau neu sy'n ordew, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13 – 2017/18

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)



Canlyniadau

Pwysau iach

Roedd gan fwyafrif y plant (72.8%) a fesurwyd yng Nghymru ar gyfer y Rhaglen Mesur Plant bwysau iach. Ychydig iawn o newid a welwyd ers i'r rhaglen ddechrau yng nghyfraddau'r plant sydd â phwysau iach ar lefel genedlaethol. Mae amrywiad ar draws y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol, gyda'r gyfradd isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 69.2%, a'r uchaf yng Nghaerdydd a'r Fro ar 77.4%.

Unwaith eto, mae cyfradd y merched sydd â phwysau iach (73.1%) yn uwch na bechgyn (72.6%), ond nid yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol. Mae cyfradd y plant sydd â phwysau iach yn amrywio ar sail amddifadedd gyda mwy na thri chwarter y plant (78.3%) sy'n byw yn yr ardaloedd o Gymru sydd â'r amddifadedd lleiaf o bwysau iach, a 69.8% o'r plant sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf o bwysau iach.



O dan bwysau

Mae nifer y plant yng Nghymru sydd o fewn y categori o dan bwysau yn fach iawn, sef 249 o blant neu 0.8%. Mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, mae llai na phump o blant yn y categori hwn. Mae risg y bydd unigolion yn cael eu hadnabod lle mae'r niferoedd yn fach, ac felly mae'n bosibl y bydd y niferoedd wedi'u hatal ar lefel awdurdod lleol. Am y rheswm hwn, mae cyfraddau'r plant sydd â phwysau iach ac sydd o dan bwysau yn aml yn cael eu cyfuno. Mae'r gyfradd uchaf o blant sydd o dan bwysau yng Nghymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sef 1.4% neu 70 o blant.

Gordewdra


Mae 12% o blant Cymru wedi'u categoreiddio yn ordew yn 2017/18.

Pan fydd data'n cael eu cyfuno ar draws pum mlynedd (rhwng 2013/14 a 2017/18), mae'r cyfraddau gordewdra ar lefel y byrddau iechyd yn ystadegol arwyddocaol uwch na chyfartaledd Cymru, sef 11.9%, mewn tri bwrdd iechyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (12.3%); Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (12.5%) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (13.5%). Mae'r ganran isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sef 9.5%, ac mae'r gwahaniaeth yn arwyddocaol.

Ffigur 2 – gordewdra ar lefel byrddau iechyd, pum mlynedd

Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, byrddau iechyd, 2013/14 i 2017/18

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)




Fesul ardal awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn unigol 2017/18, mae'r gyfradd gordewdra ar ei uchaf ym Merthyr Tudful ar 15.6%, ac mae hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn Sir Ddinbych (14.7%) a Rhondda Cynon Taf (14.4%) mae'r gwahaniaethau rhwng y tair ardal hyn a chyfartaledd Cymru yn ystadegol arwyddocaol. Mae'r gyfradd gordewdra ym Mro Morgannwg yn llai na hanner y gyfradd ym Merthyr Tudful, sef 7.1%. Mae hefyd yn is na chyfartaledd Cymru yn Sir Fynwy (8.8%) a Chaerdydd (10.1%) ac, unwaith eto, mae'r gwahaniaethau'n ystadegol arwyddocaol.



Ffigur 3 – gordewdra ar lefel awdurdodau lleol, blwyddyn sengl

Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, awdurdodau lleol, 2017/18

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)





Mae data a siart sy'n dangos gordewdra sydd wedi'u cyfuno ar gyfer y cyfnod pum mlynedd ar gael ar wefan y Rhaglen Mesur Plant. Wedi'u cyfuno, maent yn ystadegol arwyddocaol uwch na chyfartaledd Cymru o 11.9% mewn saith awdurdod lleol:-

- Ynys Môn 13.1%
- Gwynedd 13.1%
- Wrecsam 12.8%
- Sir Gaerfyrddin 13.2%
- Rhondda Cynon Taf 13.5%
- Merthyr Tudful 16.4% and
- Blaenau Gwent 13.8%

Ffigur 4 – gordewdra ar lefel byrddau iechyd, blwyddyn sengl

Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, byrddau iechyd, 2017/18

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)



Amddifadedd


Y llynedd, cynyddodd y bwlch rhwng y cyfraddau gordewdra yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r rhai â'r amddifadedd lleiaf o 4.7% i 6.2%. Eleni, bu gostyngiad bach i 6.0%, ond fel y gellir gweld o dabl 5, mae'r bwlch yn parhau i fod yn fwy nag yn y tair blynedd cyn hynny.



Ffigur 5 – gordewdra ac amddifadedd

Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, y pumed â'r amddifadedd mwyaf a'r pumed â'r amddifadedd lleiaf, 2013/14 – 2017/18

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)



Mae amddifadedd yn cael ei ddsbarthu gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014. Caiff gradd amddifadedd ei haseinio i bob un o'r 1,909 o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru. Yna mae'r sgoriau hyn yn cael eu haseinio i gwintellau yn amrywio o'r amddifadedd mwyaf i'r amddifadedd lleiaf. Ar gyfer

y Rhaglen Mesur Plant, mae cod post preswyl pob plentyn yn cael ei aseinio i LSOA ac mae canlyniadau'r rhaglen yn cael eu dadansoddi ar sail y cwintellau amddifadedd. Mae 14.2% o'r plant sy'n byw yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yn ordew, ac mae hyn yn ystadegol arwyddocaol uwch na'r cyfraddau gordewdra yn y tri chwintel isaf.

Pan fydd data'n cael eu cyfuno ar draws y pum mlynedd rhwng 2013/14 a 2017/18, mae'r gyfradd gordewdra yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yn 13.9%, sy'n ystadegol arwyddocaol uwch nag yn unrhyw un o'r pedwar cwintel arall. Yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf, mae'n 8.7%, sy'n arwyddocaol is nag yn y pedwar cwintel arall.

Mae cyfran fwy o blant yn byw yn y ddau gwintel â'r amddifadedd mwyaf nag yn

y ddau gwintel â'r amddifadedd lleiaf. Ond mae'n bwysig cofio nad yw'r holl unigolion sy'n byw mewn ardal sydd wedi'i dosbarthu fel ardal o amddifadedd yn byw mewn amgylchiadau o'r fath. Mae amddifadedd yn fwy dwys mewn rhai rhannau o Gymru megis Merthyr Tudful, ond mae pocedi o amddifadedd ledled y wlad. Yn Sir Fynwy, nid oes unrhyw LSOA o fewn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf.



Ethnigrwydd


Mae nifer y plant sy'n byw yng Nghymru yn y grŵp oedran hwn gyda tharddiad ethnig nad yw'n wyn yn parhau i fod yn isel. Cofnodwyd bod gan 5.6% o'r plant a gymerodd ran yn y rhaglen darddiad ethnig nad oedd yn wyn, tra bod 75.2% wedi'u cofnodi yn wyn. Mae data ar gael ar gyfer y flwyddyn sengl 2017/18 ond oherwydd y niferoedd bach, mae'n fwy

cadarn cyfuno'r data ar draws y pum mlynedd fel y gwelir yn Ffigur 6. Mae'r cyfraddau gordewdra ymysg plant du ar draws y pum mlynedd yn 15.7%. Mae cyfraddau ystadegol arwyddocaol uwch o ordewdra hefyd ymysg plant y cofnodwyd bod eu hethnigrwydd yn 'Tsieineaidd neu arall'.

Ffigur 6 – ethnigrwydd a gordewdra

Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew yn ôl grŵp ethnig, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2013/14 – 2017/18

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)



Mae'r data a gofnodwyd ar ethnigrwydd mewn cofnodion iechyd plant yn wael – cofnodwyd 19.2% fel 'nid yw'n hysbys', sef cynnydd ers y llynedd pan oedd y ffigur hwn yn 15%. Hefyd, mae

cyfran o'r cofnodion wedi'u codio ar gyfer ethnigrwydd ar sail system nas defnyddiwyd ers 2002, sy'n golygu mai ethnigrwydd y fam, ac nid y plentyn, sy'n ymddangos ar y system.

Cymhariaeth


Mae'r cyfraddau gordewdra a hefyd blant sydd dros bwysau ac sy'n ordew yn ystadegol arwyddocaol uwch yng Nghymru nag yn Lloegr neu unrhyw un o ranbarthau Lloegr. Mae nifer y plant sy'n cymryd rhan yn holl ranbarthau Lloegr yn uwch na'r boblogaeth a fesurwyd yng

Nghymru, ac eithrio'r Gogledd Ddwyrain. Gan na ddarperir cyfyngau hyder yn gyhoeddus ar gyfer yr Alban, nid yw'n bosibl dweud a yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol ai peidio, ond mae'n ymddangos yn uchel.

Ffigur 7 – Cymhariaeth o ordewdra yn y DU

Canran y plant dosbarth Derbyn neu Cynradd 1 sy'n ordew, Cymru, yr Alban, Lloegr a Rhanbarthau Lloegr, 2017/18

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP, CHSD (ISD yr Alban), data NCMP (HSCIC)




* Nid yw cyfyngau hyder o 95% ar gael

Ffigur 8 – Cymhariaeth o blant gordew a thros bwysau yn y DU

Canran y plant dosbarth Derbyn neu Cynradd 1, sydd dros bwysau neu'n ordew, Cymru, yr Alban, Lloegr a rhanbarthau Lloegr, 2017/18

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS),

CHSD (ISD yr Alban) data NCMP (HSCIC)



* Nid yw cyfyngau hyder o 95% ar gael

Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi dapraru cymhariaeth â chanlyniadau'r Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol yn Lloegr, lle y cafodd yr holl blant eu pwyso a'u mesur yn y Dosbarth Derbyn hefyd, a lle y defnyddir yr un cyfeirnod twf (UK90), gan wneud cymariaethau yn bosibl. Eleni, fe wnaethom hefyd ddarparu cymhariaeth â'r Alban. Mewn blynyddoedd blaenorol, darparwyd y mesuriadau o'r Alban ar gyfer rhai o'r byrddau iechyd, ond nid pob un ohonynt. Mae'r rhaglen bellach yn cwmpasu pob rhan o'r Alban yn ddaearyddol.

Mae ystod oedran y plant a gynhwyswyd yn rhaglen mesur plant genedlaethol yr Alban yn fwy nag yng Nghymru a Lloegr. Mae plant yn dechrau'r ysgol yn hwyrach yn yr Alban ac yn cael eu mesur yn y dosbarth Cynradd 1. Mae oedran y plant pan fyddant yn cael eu mesur yn amrywio o 4.5 i 6.25 oed. Fodd bynnag, gan fod canraddau BMI yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio union oedran y plentyn, dylai'r effaith fod yn is, ond dylid ystyried y cafeat hwn wrth wneud cymhariaeth.

Cyfranogiad

Mae Tabl 1 yn dangos y cyfraddau cyfranogi ar gyfer rhwng 2012/13 a 2016/17. Mae'r wybodaeth yn amrywio ychydig o'r data a ddangosir ar wefan y Rhaglen Mesur Plant. Nid yw'r data yn y tabl isod ar gyfer y blynyddoedd blaenorol wedi newid, ond mae'r tabl

data ar y wefan wedi'i ddiwygio yn dilyn diweddariad o'r rhestr o ysgolion sydd wedi'u heithrio. Ceir gwahaniaethau bach rhwng y cyfraddau cyfranogi hanesyddol a gyflwynir yn y tabl yn yr adroddiad hwn ac ar ein gwefan.

Tabl 1 – cyfranogiad yn Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13 - 2017/18*

	Cymwys	Mesurwyd	% Cyfranogiad
2012/13	34,679	29,238	84.3
2013/14	33,794	30,669	90.8
2014/15	34,815	32,889	94.5
2015/16	35,721	33,327	93.3
2016/17	35,297	33,226	94.1
2017/18	34,310	32,160	93.7

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)

*Cyfrifiad y cyfranogiad ar amser y dadansoddiad gwreiddiol. Mae gwahaniaethau bach yn y cyfraddau cyfranogi wedi'u canfod yn dilyn diwygio'r rhestr o ysgolion sydd wedi'u heithrio.

Cynhelir cyfrifiad blynyddol¹ o'r holl ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr. Ym mis Ionawr 2018, dangosodd y cyfrifiad fod 34,600 o blant yn mynychu dosbarth derbyn yng Nghymru. Bydd gwahaniaeth bach (290) yn y niferoedd rhwng y Rhaglen Mesur Plant a'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

oherwydd mae rhai plant o Loegr yn mynd i'r ysgol yng Nghymru ac ni fydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y niferoedd sy'n gymwys ar gyfer y Rhaglen Mesur Plant. Yn ogystal, mae'r cymhwysedd ar gyfer cymryd rhan yn y Rhaglen yn cael ei gyfrifo ym mis Gorffennaf yn y flwyddyn ysgol.


¹ Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Llywodraeth Cymru (11/9/2018) https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-*School-Census

Rhagor o wybodaeth

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb byr o'r dadansoddiad o'r mesuriadau plant a gymerwyd o'r Rhaglen Mesur Plant. Gellir gweld gwybodaeth fwy cynhwysfawr ar ffurf siartiau, tablau a mapiau ar ein gwefan yn

www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/hafan

I gael rhagor o wybodaeth am fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod, ewch i wefan Gwella Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn: www.everychildwales.co.uk/?lang=cy a dilynwch y ddolen i'r wybodaeth "10 cam i bwysau iach".



Talfyriadau

BIA	Bwrdd Iechyd Addysgu
BIP	Bwrdd Iechyd Prifysgol
BME	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
BMI	Mynegai Màs y Corff
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
LSOA	Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
MSOA	Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol
NCCHD	Cronfa Ddata Genedlaethol ar gyfer Iechyd Plant Cymunedol
NCMP	Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol (Lloegr)
NWIS	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
RhMP	Rhaglen Mesur Plant Cymru
UK90	System cyfeirnod twf a ddefnyddir yn y Rhaglen Mesur Plant
WHO	Sefydliad Iechyd y Byd

POB PLENTYN

Rhaglen Mesur Plant 2017/18



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67936

I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch:

childmeasurementprogramme@wales.nhs.uk

© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru